



# Dysgu Sir Gâr

## Learning Carmarthenshire

### Llawlyfr y Dysgwr

#### **Croeso cynnes iawn i chi i gyrsiau Dysgu Sir Gâr.**

Ein nod yw gwneud eich profiad dysgu yn bleserus a buddiol. Yn y llawlyfr hwn, cewch wybodaeth ddefnyddiol amdanon ni ac am beth allwn ei wneud i'ch helpu chi.

#### **Gallwn ni ddarparu:-**

- Cyngor unigol am ddim ac arweiniad ar yrfaeodd a chyfleoedd addysgol eraill.
- Tiwtoriaid cymwys yn y pynciau o'ch dewis.
- Rhaglen ddysgu sy'n ystyried eich diddordebau ac anghenion.
- Lle diogel, glan a chyffyrddus i ddysgu gydag awyrgylch gyfeillgar sy'n arwain at gyd-barch.
- Tiwtor sy'n gwrandao ar beth sydd gennych i'w ddweud am beth dych chi eisiau'i ddysgu ac sy'n rhoi cyfleoedd rheolaidd i drafod gwaith a'ch cynnydd personol.
- Cefnogaeth ychwanegol ar gyfer eich gwaith dysgu, megis taflenni print bras neu gyfarpar wedi'i addasu.
  - Gwybodaeth ar sut i gael mynediad i gyfleoedd dysgu anffurfiol eraill.
- Cymorth gweithredol i helpu gyda datrys problemau corfforol i gael mynediad i gyrsiau.
- Rhybudd o flaen llaw, os yn bosib, os caiff eich cwrs ei newid neu ohirio.

#### **Cefnogaeth ar gyfer eich gwaith dysgu:**

- Mae canolfannau Dychwelyd i Ddysgu yn darparu help gyda darllen, ysgrifennu, sillafu a mathemateg, Llythrennedd Digidol ac SSIE.
- Mae Dysgu Cymraeg yn darparu help gyda gwella eich sgiliau iaith Gymraeg at ddefnydd yn y gwaith, gyda'ch teulu neu'ch bywyd cymdeithasol.
- Mae eich llyfrgell leol yn cynnig llyfrau a phapurau newydd, fideos, DVDau a CDau, cyrchu'r Rhyngwyd a chyfleusterau cyfrifiadur am ddim i gefnogi eich dysgu.
- Os ydych yn mynychu cwrs mewn partneriaeth â Choleg Sir Gâr, gallwch gyrchu eu holl ystod o Wasanaethau Myfyrwyr gan gynnwys Cerdyn Ychwanegol UCM.

## **Gofynnwn i chi am eich cydweithrediad drwy:**

- Fynychu dosbarthiadau mor rheolaidd â phosibl a rhoi gwybod i ni os byddwch yn absennol am unrhyw reswm.
- Cymryd rhan yn llwyr yn eich dosbarth a dangos ystyriaeth briodol a pharch tuag at eraill.
- Cofiwch, mae croeso i chi ofyn cwestiynau os nad ydych yn deall unrhywbeth.
- Cadw ffeil o waith i gyfeirio ati a'i chyflwyno a chwblhau gwaith cartref/asesiadau yn ôl yr angen.
- Manteisio ar y cyfle i ennill cymwysterau ffurfiol ar gyfer eich dysgu.
- Rhoi gwybod i'ch tiwtor os oes unrhyw broblemau gennych yn eich dosbarth.
- Darparu'r wybodaeth sydd ei hangen arnom a rhoi adborth i ni ar eich profiad o'r cwrs.
- Siarad â ni os oes gennych ofidiau am gymryd rhan neu unrhyw anghenion dysgu, fel y gallwn gynnig cefnogaeth ychwanegol i'ch galluogi chi i gymryd rhan llawn yn eich cwrs.
- Parchu eraill a pheidio digio neb drwy ddefnyddio iaith neu ymddygiad gall bechu yn erbyn rhywun.
- Ymddwyn mewn ffordd sy'n sicrhau diogelwch a lles pawb yn y dosbarth a dilyn cyfarwyddiadau Iechyd a Diogelwch a roddir gan eich tiwtor.
- Manteisio ar y cyfle i ddefnyddio eich sgiliau newydd y tu fas i'r ystafell ddosbarth.
- Mwynhewch eich hun!

## **Dysgu Sir Gâr - Ein polisiâu ni:**

- Bydd dosbarthiadau ond yn rhedeg os oes niferoedd digonol wedi cofrestru ac wedi talu'r ffi berthnasol.
- Efallai y bydd yn rhaid i ni ddod â dosbarth i ben os yw niferoedd yn syrthio'n is na'r lefel dderbyniol .
- Gallwn ond rhoi ad-daliad ffioedd mewn amgylchiadau eithriadol ar gais ysgrifenedig.
- Rhaid i ni weld tystiolaeth bod hawl gennych gael ffi rhatach neu codir y ffi llawn arnoch.
- Bydd eich tiwtor yn egluro materion Iechyd a Diogelwch sy'n berthynol i'ch dosbarth.
- Mae copïau o bolisiâu'r Cyngor ar gael ar gais.
- Os ydych chi'n talu arlein, yna caniateir 14 diwrnod i chi ailfeddwl neu tan ddechrau'r cwrs (yn ddibynnol ar ba un ddaw gyntaf).
- Rhaid cyflwyno Dogfennau Adnabod i brofi eich bod yn gymwys i fynychu cyrsiau Sgiliau Hanfodol ac ESOL.
- Bydd Cyngor Sir Gâr yn cadw data at bwmpas prosesu a gweinyddu eich ymrestrriad ac achredu. Caiff y wyboddaeth ei rannu gydag asiantaethau eraill, fel ein cyllidwyr, cyrff arholi, Llywodraeth Cymru yn unol â gofynion RhDDC.

Mae gan bob dysgwr yr hawl i fynychu cyrsiau heb ofni anffafiaeth, aflonyddu neu gam-drin. Os ydych chi'n teimlo eich bod wedi cael eich trin yn anfoddhaol, neu eich cam-drin neu aflonyddu, rhowch wybod i'r tiwtor neu'r Tîm Rheoli. Dwedwch wrthon ni hefyd os gwelwch chi hyn yn digwydd i rywun arall.

Os oes angen, byddwn yn cymryd camau disgyblu yn erbyn dysgwyr sy'n ymddwyn yn annerbyniol.

A ydych chi o'r farn fod eich tiwtor, eich asesydd, neu eich dilysydd wedi gwneud penderfyniad anghywir neu heb roi digon o ystyriaeth i unrhyw anghenion asesu arbennig sydd gennych.

Hyderwn y byddwch yn mwynhau'r cwrs. Os bydd unrhyw broblemau neu gwynion, rhowch wybod i ni yn swyddfa'r ganolfan ar unwaith ac fe wnawn ein gorau i unioni'r sefyllfa. Cofiwch gysylltu â ni hefyd os byddwch am ein canmol!

## Sut i gysylltu â ni:

### DYSGU OEDOLION YN Y GYMUNED/SGILIAU HANFODOL A SSIE

Caerfyrddin: Prif Swyddfa Weinyddol  
Swyddog y Ganolfan: Raine Mason  
([REMason@sirgar.gov.uk](mailto:REMason@sirgar.gov.uk))  
Swyddog Gweinyddol: Lesley Davies  
([dysgusirgar@sirgar.gov.uk](mailto:dysgusirgar@sirgar.gov.uk))  
Canolfan Dysgu Caerfyrddin  
Heol Ffwrnes  
Caerfyrddin SA31 1EU  
01267 235413

Rhydaman  
Swyddog y Ganolfan: Andrea Sykes  
([ASykes@sirgar.gov.uk](mailto:ASykes@sirgar.gov.uk))  
Canolfan Ddysgu Rhydaman  
Streets/Theatr y Glowyr  
Stryd y Gwynt  
Rhydaman SA18 3DN  
01269 598339

Llanelli  
Swyddog y Ganolfan: Lianne Cuke  
([LCuke@sirgar.gov.uk](mailto:LCuke@sirgar.gov.uk))  
Canolfan Ddysgu Llanelli  
Llyfrgell Llanelli  
Stryd Vaughan  
Llanelli SA15 3AS  
01554 744213

Rheolwr Dysgu Cymunedol: Tracey Warr  
Adeilad 2, Parc Dewi Sant  
Heol Ffynnon Job  
Caerfyrddin SA31 3HB  
01267 246698  
([TWarr@sirgar.gov.uk](mailto:TWarr@sirgar.gov.uk))

Swyddog Arholiadau: Karen Morris  
Adeilad 2, Parc Dewi Sant  
Heol Ffynnon Job  
Caerfyrddin SA31 3HB  
01267 246700  
([Exams@sirgar.gov.uk](mailto:Exams@sirgar.gov.uk))

### DYSGU CYMRAEG/ CYMRAEG I OEDOLION

Swyddog Dysgu Cymunedol: Siân Merlys  
Adeilad 2, Parc Dewi Sant  
Heol Ffynnon Job  
Caerfyrddin SA31 3HB  
01267 246861  
([smerlys@sirgar.gov.uk](mailto:smerlys@sirgar.gov.uk))

Swyddog Dysgu Cymraeg: Sam Jones  
Adeilad 2, Parc Dewi Sant  
Heol Ffynnon Job  
Caerfyrddin SA31 3HB  
01267 246862  
[dysgucymraeg@sirgar.gov.uk](mailto:dysgucymraeg@sirgar.gov.uk)

Hefyd Dydd Llun, Mawrth a Mercher:  
Canolfan Addysg Gymunedol Llandeilo  
Stryd Rhosmaen  
Llandeilo SA19 6LU

### Gall eich dilyn ni ar ein:

Gwefan Dysgu Oedolion am y wybodaeth ddiweddaraf am ein cyrsiau.

<https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gw-asanaethaur-cyngor/addysg-ac-ysgolion/dysgu-oedolion/>

<https://dysgucymraeg.cymru/amdanom-ni/darparwyr-cyrsiau/cyngor-sir-gar/>



Gallwch ein dilyn ar Drydar ar  
**@LearnCymraegSG**  
**@CarmsCouncil**



Gallwch hefyd edrych ar ein tudalen Facebook drwy chwilio am **@Ciosirgar**

[www.facebook.com/ciosirgar](http://www.facebook.com/ciosirgar)

[www.facebook.com/CyngorSirGar](http://www.facebook.com/CyngorSirGar)